

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn: Siambr y Cyngor,
Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanydy CF40 2XX
brynhawn Mawrth 18 Gorffennaf 2017 am 2.00pm

Swyddog cyswllt: Hannah Williams (Ffôn: 01443 424062)

Os bydd Cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar ddydd Gwener 14 Gorffennaf 2017. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch neges e-bost i CyfarwyddwrGwasanaeth.CabinetaCC@rhondda-cynon-taf.gov.uk.

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Côt Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Derbyn cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gafodd ei gynnal ddydd lau 22 Mehefin 2017.

(Tudalennau 5–24)

3. ADRAN 3A – CYNLLUN YR ARWEINYDD AR GYFER DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL 2017/18

Derbyn adroddiad yr Ysgrifennydd i'r Cabinet, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau o'r Cabinet am Gynllun yr Arweinydd ar gyfer Dirprwyo Swyddogaethau Gweithredol yn y flwyddyn i ddod, yn dilyn etholiadau lleol 2017.

(Tudalennau 25–28)

4. RHAGLEN TEULUOEDD CYDNERTH RHONDDA CYNON TAF: GWASANAETHAU INTEGREDIG MATERION ATAL AC YMYRRAETH GYNNAR A CHYMORTH I DEULUOEDD YN RHONDDA CYNON TAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y gwaith sy'n cael ei wneud i sefydlu a gweithredu Fframwaith Integredig Cymorth i Deuluoedd i gydlynu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar arbenigol, effeithiol, ac i ddarparu cymorth integredig ar gyfer teuluoedd ar draws y Fwrdeistref Sirol.

(Tudalennau 29–48)

5. ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD Y CYNGOR – 31 MAWRTH 2017 (DIWEDD BLWYDDYN)

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen, sy'n rhoi arolwg i'r Aelodau ar gyflawniad y Cyngor o ran materion ariannol a gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.

(Tudalennau 49–66)

6. ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD CORFFORAETHOL Y CYNGOR (DRAFFT)

Derbyn adroddiad gan y Prif Weithredwr, sy'n amlinellu'r Adroddiad ar Gyflawniad Corfforaethol y Cyngor sy'n cynnwys cynnydd ar gyfer 2016/17 a chynlluniau ar gyfer 2017/18 mewn perthynas â thair blaenoriaeth strategol y Cyngor.

(Tudalennau 67-110)

7. COSTAU GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION 2017/18

Derbyn adroddiad ar y cyd gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen, sy'n egluro'r cynigion ar gyfer lefelau costau darparu gwasanaethau gofal dibreswyl ar gyfer unigolion sy'n manteisio ar wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn y flwyddyn ariannol 2017/18.

(Tudalennau 111-118)

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2016/17

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n cyflwyno'r drafft cyntaf o adroddiad blynyddol 2016/17 i'w drafod gan y Cabinet cyn rhyddhau'r cynnwys ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

(Tudalennau 119-152)

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNHALWYR CWM TAF 2016/17

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, i Aelodau o'r Cabinet gael cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2016/17 ar faterion Cynhalwyr i Lywodraeth Cymru.

(Tudalennau 153-194)

10. CYNNIG GAN YR ELUSEN, AGE CONNECTS MORGANNWG, AR GYFER CAIS I'R GRONFA LOTERI FAWR AM AILDDATBLYGU CANOLFAN ORIAU DYDD Y SANTES FAIR, ABERDÂR, A'I THROSGLWYDDO DRWY'R BROSES TROSGLWYDDO ASED AU CYMUNEDOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am linell amser cyllido a phroses trosglwyddo asedau cymunedol ar gyfer yr elusen, Age Connects Morgannwg, ynghyd â thrafodaethau'r maes gwasanaeth ar gyfer penderfynu prydles 99 o flynyddoedd a'r posibilrwydd o adleoli'r ddarpariaeth Pryd-ar-glud.

(Tudalennau 195-198)

11. DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT 2017 – YR WYBODAETH DDIWEDDARAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Dysgu Gydol Oes, i Aelodau gael trafod Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017 (drafft) Rhondda Cynon Taf.

(Tudalennau 199 - 562)

12. CYNLLUN PEILOT CYNNIG GOFAL PLANT LLYWODRAETH CYMRU – YR WYBODAETH DDIWEDDARAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Dysgu Gydol Oes, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd o ran gweithredu cynllun peilot Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ar gyfer plant cymwys 3 oed a 4 oed yn Rhondda Cynon Taf.

(Tudalennau 563 - 566)

13. RHAGLEN YSGOLION YR 21^{AIN} GANRIF: CYFLWYNO RHAGLEN AMLINELLOL STRATEGOL AR GYFER BAND B

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Dysgu Gydol Oes, sy'n egluro Rhaglen Amlinellol Strategol (drafft) – Band B – y Cyngor ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain}, i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Gorffennaf 2017.

(Tudalennau 567 - 576)

14. RHAGLEN YSGOLION YR 21^{AIN} GANRIF: ENWI'R YSGOLION NEWYDD

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Dysgu Gydol Oes, i'r Aelodau gael trafod argymhellion corff/cyrff llywodraethu dros dro yr ysgolion, wedi eu henwi yn yr adroddiad, mewn perthynas â dewis enwau eu hysgolion.

(Tudalennau 577 - 586)

15. GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL YSTAD DDIWYDIANNOL TREFFOREST A PHARC NANTGARW

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio, sy'n ceisio cymeradwyaeth i fabwysiadu Gorchymyn Datblygu Lleol Ystad Ddiwydiannol Trefforest a Pharc Nantgarw.

(Tudalennau 587 - 834)

16. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:-

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

17. DILEU DYLEDION NAD OES MODD EU CASGLU

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen, sy'n rhoi datganiad sefyllfa i'r Aelodau ar ddyledion nad oes modd eu casglu, ac sy'n pennu'r gofyniad i ddileu symiau penodol yn unol â meini prawf adolygu llym.

(Tudalennau 835 - 848)

18. MATERION BRYN

Trafod unrhyw faterion bryn y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

Cylchrediad:-

Cynghorwyr: A. Morgan (Cadeirydd)
M. Webber (Is-gadeirydd)
R. Bevan
A. Crimmings
G. Hopkins
M. Norris
(Mrs) J. Rosser
R. Lewis
(Mrs) C. Leyshon

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Chris Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a
Llywodraethol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a
Chysylltiadau Cyhoeddus
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a
Gwasanaethau Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a
Gwasanaethau i Blant
Tony Wilkins, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol
Oes
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y
Strydoedd
Paul Mee, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y
Cyhoedd